# CYNGOR CYMUNED BETHESDA
# BETHESDA COMMUNITY COUNCIL

*"Gwerth cymuned yw'n credo*
*A'n braint yw gwarchod ein bro"*


Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
*Clerk and Chief Financial Officer*
**Bethan Roberts**
Rhif Ffôn: 01248 602131
Ebost: CyngorBethesda@ogwen.org

26 Stryd Fawr
Bethesda
Gwynedd
LL57 3AE


Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol o'r Cyngor a gynhaliwyd dros Zoom
**Nos Iau 25 Mai 2023**

**PRESENNOL:**

**Ward Ogwen**
Y Cynghorydd Gwilym Owen
Y Cynghorydd Catrin Wager
Y Cynghorydd Neville Hughes
Y Cynghorydd Mary Jones

**Ward Gerlan**
Y Cynghorydd Bleddyn Williams
Y Cynghorydd Dyfrig Jones
Y Cynghorydd Ann Williams
Y Cynghorydd Einir Williams
Y Cynghorydd Linda Brown

**Ward Rachub**
Y Cynghorydd Huw Jones
Y Cynghorydd Elin Prysor Williams
Y Cynghorydd Walter Williams

**Cynghorydd Sir**
Y Cynghorydd Paul Rowlinson
Y Cynghorydd Rheinallt Puw

1. **Croesawyd** pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Cyng. Walter Williams.
   Croeso arbennig i'r Cyng. Elin Prysor Williams i'w chyfarfod gyntaf.

**Ymddiheuriadau** – y Cyng. Michael Williams.

**2. Datgan Diddordeb**
Dim i'w ddatgan.

**3. Materion Brys**
**3.1 Problemau gyda gwasanaeth ailgylchu** – Adroddwyd fod llawer o broblemau gyda diffyg gwagio'r biniau ailgylchu yn yr ardal – y Clerc i lythyru'r adran gwastraff, Cyngor Gwynedd.
**3.2 Cyfarfod Scottish Power – Toriadau trydan** – nid yw'r aelodau wedi derbyn unrhyw adborth ar ôl y cyfarfod yn Nghlwb Rygbi Bethesda, y Clerc i holi am ddiweddariad.
**3.3 Torri gwair –** Adroddwyd y Cyng. Michael Williams fod y toriad cyntaf o fewn y plwyf ddim yn cael ei gasglu ac yn edrych yn fler. Y Clerc i holi Cyngor Gwynedd am bris i gasglu'r gwair ar gyfer y toriad cyntaf yn unig.

**4. Cofnodion**
Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ebrill 2023.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion**
**5.1 YGC – Sherpa Shelters** – Nodwyd fod y sgrîn weid gael ei osod, ac mae Scottish Power wedi cadarnhau bod y gwaith ar ochr nhw wedi gael ei gwblhau. Nodwyd fod y cwmni sydd wedi gosod y sgrîn yn ymwybodol ac yn gobeithio y bydden nhw yn dod allan i'r safle yn yr wythnosau nesaf – ar y gweill.

**5.2 'Parallel Bars' ar gyfer Cae Chwarae Rachub** – Adroddwyd fod yr offer wedi cyrraedd y swyddfa wythnos yma, y Clerc i drefnu i contractwr lleol i ymgymryd a'r gwaith gosod.
**5.3 Lloches Bws Lon Newydd –** Adroddwyd fod y Clerc wedi archebu'r lloches bws, ac fydd y lloches yn gael ei danfon yn syth at y contractwr diwedd mis Mehefin/dechrau Gorffennaf.
**5.4 Llwybr Parc Meurig –** Adroddwyd fod y grwp tasg wedi cyfarfod ar y safle, a cadarnhawyd fod angen gwaith cynnal ar hyd y llwybr, yn cynnwys trwsio'r ffens bresennol ac ail wneud y grisiau. Cytunwyd y bydd y grwp yn cyfarfod eto i drafod adnewyddu'r les, a'r Clerc i holi contractwyr lleol am brisiau i wneud y gwaith.
**5.5 Carnifal Bethesda** – Adroddwyd y Cyng. Linda Brown fod y carnifal wedi gael ei gynnal ar y penwythnos a chafwyd diwrnod benidigedig, erioed wedi gweld stryd Bethesda nag y Clwb Rygbi mor llawn. Y Clerc i longyfarch pwyllgor y carnifal ar eu llwyddiant.

**6. Cae Chwarae Pantdreiniog**
Adroddwyd y Cyng. Bleddyn Williams ei fod wedi derbyn 2 gwyn gan aelodau'r cyhoedd ynglyn a plant hyn yn ymgynull yn y cae chwarae mewn grwpiau sylweddol fawr. Nodwyd fod un rhiant wedi gofyn i'r plant hyn symud oddi ar un o'r offer ac wedi derbyn ymateb digywilydd ac anghwrtais. Cytunwyd bydd y Clerc yn holi'r heddlu os oes modd gael mwy bresenoldeb ar droed yn yr ardal. Hefyd, cytunwyd bydd y Clerc yn gwahodd Dewi Davies, Heddlu Gogledd Cymru i'r cyfarfod nesaf.
Trafodwyd y posibilrwydd o agor Llys Dafydd a Tan Twr drwy'r adeg ar ôl i'r CCTV gael ei osod, y Clerc i drefnu cyfarfod gyda'r Is-bwyllgor Eiddo ac Asedau ar ôl i'r CCTV gael ei osod.

**7. CCTV**
Nodwyd fod y sustem CCTV ar fin gael ei osod ar y Stryd Fawr, y Clerc wedi rhoid 'post' ar 'Facebook' Partneriaeth Ogwen. Adroddwyd y Cyng. Rheinallt Puw fod yr adran parcio yn Cyngor Gwynedd am gael dyfynbris am camerau i'w rhoi yn y meysydd parcio Cae Star a Pantdreiniog.

**8. Llwybrau Cyhoeddus**
**Llwybr Ffordd y Mynydd i Ffordd Tanybwlch** – Nodwyd fod cyflwr y llwybr yn warthus, ac fod y Cyng. Paul Rowlinson wedi trefnu i swyddog i ddod allan. Y Clerc i holi'r Cyng. Paul Rowlinson am y mater.

**9. Maes Parcio Gerlan**
Nodwyd fod y Clerc wedi gael trafodaeth gyda'r perchennog newydd. Y Clerc i holi am pris diwygiedig ar gyfer y tir mewn sylw.

**10. Gohebiaeth**
Roedd pawb wedi derbyn copi o'r rhestr 'crynodeb o ohebiaeth Mai 2023'
**10.1** Cyng. Paul Rowlinson – Canolfan Rachub **–** Penderfynwyd y Cyngor y bydden yn croeso datblygiad maes parcio ar y safle hwn, mae parcio yn broblem mawr yn Rachub ar hyn o bryd. Nodwyd y posibilrwydd o gael pwyntiau gwefru yma hefyd. Y Clerc i adrodd yn ôl i'r Cyng. Paul Rowlinson.
**10.2** Parc Cenedlaethol Eryri – Gweminar Aelodau Cynghorau Cymuned – Adolygu'r Cynllun Datblygu Lleol – Penderfynwyd bydd y Cyngr. Catrin Wager a Walter Williams yn cynrychioli'r Cyngor.
**10.3** Clwb Ieuenctid Bethesda – Cyfweliadau swyddi – Penderfynwyd y bydd y Cyng. Einir Williams yn fodlon cymeryd rhan yn y cyfweliadau.

**10.4** Gorffwysfan – Caffi Colled – Nodwyd fod y Parch. Sara Roberts wedi trefnu yr digwyddiad hwn ar fore dydd Llun yn y Gorffwysfan, ond yn anffodus nid yw'r lleoliad ar gael yn ystod y boreau. Y Clerc i ofyn i Sara gynnal y digwyddiad yn ystod y prynhawn, fel rhan o'r cynllun 'Croeso Cynnes'.

**11. Penderfyniadau a Ceisiadau Cynllunio**
**<u>Penderfyniadau</u>**

| | |
|---|---|
| **C22/0811/13/LL**<br>Clwb Pel Droed, High Street, | Adeiladu maes hyfforddi pob tywydd 3G gyda ffensys a goleuadau cysylltiedig.<br>**Penderfyniad:** Caniatawyd gydag amodau. |
| **C23/0282/13/RC**<br>Plot 11, Stad Llwyn Bedw, Rachub | Cais i ddiddymu cytundeb 106 (tŷ fforddiadwy) oddi wrth ganiatâd C09A/0067/13/AM ac yn ddiweddarach caniatâd rhif C15/0007/13/LL.<br>**Penderfyniad:** Gwrthodwyd. |

**<u>Ceisiadau</u>**

| | |
|---|---|
| **C23/0419/13/DT**<br>15 Rhes Elfed, Ffordd Bangor, Bethesda | Paneli solar i'r prif ddrychiad (eiddo o fewn ardal gadwraeth).<br>**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad. |

**12. Taliadau**

| | | |
|---|---|---|
| Opus Energy | Trydan Llys Dafydd | £64.30 |
| John Wyn Jones | Cyflog gofalwr mis Mai | £364.00 |
| CThEM | Treth mis Mai | £91.00 |
| AMV Playgrounds | Parallel Bars – Cae Chwarae Rachub | £1041.60 |
| C L Jones | Nwyddau Basgedi Crog | £18.92 |
| Colin Jackson | Torri llwybrau | £2290.00 |
| Scottish Power | Nwy Gorffwysfan | £68.04 |